OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 267 (Cy. 50)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

*Gwnaed* *1 Mawrth 2024*

*Yn dod i rym* *11 Mawrth 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mawrth 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 11 Mawrth 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" (*"the trunk road"*) yw'r darn o gefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd wrth ochr ddwyreiniol y fân gylchfan sy'n arwain at Riw Briallu hyd at bwynt 1100 metr i'r dwyrain i'w chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon yn Llanbadarn Fawr yn Sir Ceredigion.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru